# Y Pwyllgor Darlledu

## BCC(3)-06-08 (p.2)

**Memorandwm S4C i ymchwiliad Pwyllgor Darlledu y Cynulliad Cenedlaethol i Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus ac Effaith y Newid i Ddigidol**

Mai 2008

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae S4C yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus (DGC) sy'n darparu ystod o raglenni Cymraeg o ansawdd uchel ar y teledu ac ar-lein.

1.2 Mae S4C yn awdurdod statudol a sefydlwyd gan Ddeddf Seneddol ym 1981. Ei gylch gwaith o ran y gwasanaeth analog yw: darparu ystod eang o raglenni amrywiol ac o ansawdd uchel, y mae cyfran sylweddol o'r rhaglenni yn rhaglenni Cymraeg; a, bod y rhaglenni a ddarlledir rhwng 18.30 a 22:00 bob dydd yn rhaglenni Cymraeg yn bennaf; a, bod y rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni Cymraeg, fel arfer yn rhaglenni a ddarlledwyd ar Channel 4 neu a fydd yn cael eu darlledu ar Channel 4.[1]

1.3 Ar S4C digidol, y cylch gwaith yw: darparu ystod eang o raglenni amrywiol ac o ansawdd uchel mewn gwasanaeth lle y mae cyfran sylweddol o'r rhaglenni yn rhaglenni Cymraeg.[2]

1.4 Mae Awdurdod S4C yn gorff annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau rhaglenni teledu Cymraeg. Mae'r Awdurdod yn atebol am allbwn S4C ac yn goruwchwylio rheolaeth y Sianel dan drefniant hyd braich. Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr a'i staff yw rheoli a chynnal S4C o ddydd i ddydd. Nodir manylion natur y cyfrifoldebau yn 'Rolau Allweddol Awdurdod S4C a Bwrdd S4C.'[3]

1.5 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn ymrwymo'r Awdurdod i:

- Lunio Adroddiad Blynyddol a Datganiad o'r Cyfrifon, a gyflwynir gerbron y Senedd.
- Gyhoeddi Datganiad Polisi Rhaglenni blynyddol, ac Adolygiad o'r Polisi Rhaglenni.
- Sicrhau bod ei wasanaethau cyhoeddus yn cydymffurfio â Chod Darlledu Ofcom.
- Baratoi Telerau Masnach a Chod Ymarfer ar gyfer y broses o gomisiynu cynyrchiadau annibynnol.
- Gyflawni targedau a gymeradwywyd gan Ofcom ynghylch cwotâu cynhyrchu a darlledu a gwasanaethau mynediad, er enghraifft, isdeitlo a disgrifiadau sain.
- Ganfod barn y cyhoedd ynghylch y rhaglenni a ddarlledir ar S4C a'r mathau o raglenni y byddai'r cyhoedd yn dymuno eu gweld yn cael eu darlledu ar S4C.

Mae Ffigwr 1 yn nodi manylion y gwasanaethau a gynigir gan S4C ar hyn o bryd.

---

1 CA03 sch12 p.2
2 CA03 sch12. p.2
3 http://www.s4c.co.uk/abouts4c/authority/pdf/rol_awdurdod.pdf

**Ffigwr 1 - Gwasanaethau a ddarparir gan S4C ar hyn o bryd**

| Enw'r gwasanaeth | Natur y Gwasanaeth | Platfform | Mynediad ac Ôl Troed |
|---|---|---|---|
| S4C | O leiaf 37 awr o raglenni Cymraeg yr wythnos.<br><br>Rhaglenni Cymraeg yn ystod oriau brig yn bennaf.<br><br>Rhaglenni Channel 4 ar adegau eraill. | Analog | 4 yng Nghymru |
| S4C digidol | O leiaf 80 awr o raglenni Cymraeg yr wythnos.<br><br>(O 23 Mehefin 2008, bydd y rhaglenni yn cynnwys gwasanaeth i blant dan oed ysgol rhwng 07:00 a 13:30) | Daearol Digidol (Freeview gan gynnwys gwasanaethau rhyngweithiol a'r botwm coch)<br><br>Lloeren Ddigidol (gan gynnwys gwasanaethau rhyngweithiol a'r botwm coch)<br><br>Cebl Digidol<br><br>Freesat (o fis Mai 2008) | 4 yng Nghymru<br><br>104 yng Nghymru ac 134 yng ngweddill y DU<br><br>194 yng Nghymru<br><br>104 yng Nghymru ac 120 yng ngweddill y DU |
| www.s4c.co.uk/watch | Bu modd gwylio rhaglenni Cymraeg er mis Chwefror 2006.<br><br>Gweddarllediad cyd-amserol o wasanaeth S4C digidol.<br><br>Ffenestr 35 diwrnod ar gyfer gwylio ar alw.<br><br>Ffrydio ychwanegol o ddigwyddiadau pwysig yng Nghymru. | Ar-lein | DU (ac eithrio pan gaiff ei gyfyngu gan hawliau).<br><br>Ar draws y byd (ac eithrio lle y caiff ei gyfyngu gan hawliau). |
| Freewire | Ffrydio S4C digidol trwy gyfrwng cytundeb gydag INUK. | IPTV | Ar gael ar wasanaeth Freewire ar gyfer campysau Prifysgolion ar draws y DU. |

| Enw’r gwasanaeth | Natur y Gwasanaeth | Platfform | Mynediad ac Ôl Troed |
|---|---|---|---|
| www.s4c.co.uk | Safleoedd chwaraeon, cerddoriaeth, drama, ffeithiol, digwyddiadau byw ac adloniant.<br><br>Mynediad i archif.<br><br>Manylion ynghylch yr amserlen.<br><br>Gwybodaeth gorfforaethol. | Ar-lein | Ar gael ar draws y byd |
| www.dysgus4c.co.uk | Gwasanaeth pwrpasol ar gyfer dysgwyr Cymraeg gan ddefnyddio rhaglenni S4C fel adnodd dysgu. | Ar-lein | Ar gael ar draws y byd |
| Ffermio.tv<br>bandit247.com<br>uned5.co.uk<br>(enghreifftiau) | Nifer o wefannau ychwanegol sy’n cael eu creu gan gyflenwyr annibynnol ac sy’n mynd y tu hwnt i ofynion rhaglenni teledu. | Ar-lein | Ar gael ar draws y byd |
| S4C2 | Darlledu o’r Cynulliad Cenedlaethol rhwng 09:00 ac 18:00 o ddydd Mawrth i ddydd Iau. Darllediadau ychwanegol o ddigwyddiadau cenedlaethol.<br><br>Ariannir S4C2 gan refeniw Masnachol S4C ac mae’n bartneriaeth gyda’r BBC. | Lloeren Ddigidol<br><br>Gwasanaeth Daearol Digidol<br><br>Cebl Digidol<br><br>Freesat | 507 ar draws y DU<br><br>86 yng Nghymru<br><br>195 yng Nghymru<br><br>202 ar draws y DU |
| www.s4c.co.uk/cynhyrchu | Cyfleuster cynhwysfawr sy’n cynnig gwybodaeth i’r sector cynhyrchu annibynnol. | Ar-lein | Ar gael ar draws y byd |

## 2. Cyd-destun y Newid

2.1 Yn yr un modd â phob darlledwr, mae S4C yn gweld technolegau yn cydgyfeirio, ynghyd â newid sylweddol o ran y ffordd y caiff gwybodaeth ac adloniant eu creu a'u defnyddio bellach. Mae 92% o unigolion yng Nghymru (89% yn y DU) bellach yn cael teledu digidol.[4] Mae lefelau treiddiad y We a band llydan ymysg oedolion yng Nghymru bellach dipyn yn is na lefelau yn y DU. Mae gan 55% fynediad i'r We yn eu cartref yng Nghymru (65% DU) tra fod gan 45% o oedolion fand llydan (57% DU). [5]

2.2 Mae S4C yn esblygu er mwyn bodloni galwadau byd aml-blatfform a chydgyfeiriol. Mae anghenion cynulleidfaoedd yn newid ac mae'n rhaid ymateb i hynny. Yr her yw cyfuno cynnwys o ansawdd uchel, wedi'i seilio ar ragoriaeth greadigol gyda dulliau dosbarthu newydd, er mwyn cynnal effaith a chyrhaeddiad gwasanaethau cyhoeddus.

2.3 Gyda'i gilydd, mae'r newid i ddigidol, patrymau newydd o ddefnyddio'r cyfryngau a llwyfannau ychwanegol, yn ogystal â phatrymau ieithyddol sy'n newid yng Nghymru, wedi creu cyd-destun newydd. Cyhoeddwyd Strategaeth Rhagoriaeth Greadigol 2004 S4C[6] i ddelio â'r cyd-destun newydd hwn, gan geisio achub y blaen ar sialensiau'r newid i ddigidol. Cyhoeddir Datganiadau Polisi Rhaglenni yn flynyddol ynghyd â'r Cynllun Corfforaethol sy'n cynnwys amcanion a thargedau penodol i'w cyflawni bob blwyddyn.

2.4 Bydd cwblhau'r newid i ddigidol yng Nghymru yn 2009-2010 yn garreg filltir hynod o bwysig i S4C. Ar yr adeg hon, ni fydd rhaglenni Channel 4 a ddarlledir y tu allan i'r oriau brig ar hyn o bryd, ar gael ar y gwasanaeth analog, a bydd un sianel Gymraeg, S4C digidol.

## 3. Strategaeth Gynnwys a Chyflenwi

3.1 Comisiynir cynnwys S4C yn unol â'r Strategaeth Rhagoriaeth Greadigol, sy'n nodi y bydd "S4C yn creu gwasanaeth rhaglenni o safon eithriadol mewn partneriaeth â chynhyrchwyr sydd a'u bryd ar gyflawni rhagoriaeth greadigol."

3.2 Roedd y Strategaeth felly yn gofyn am berthynas newydd gyda'r sector cynhyrchu a gyda'r BBC.

3.3 Seiliwyd egwyddorion y berthynas newydd ar Godau Ymarfer 2004 (a gymeradwywyd gan Ofcom) a Phartneriaeth Strategol S4C/BBC.

Fe wnaeth S4C adolygu'r sail ar gyfer comisiynu cynnwys wrth ymateb i ofynion Deddf Gyfathrebiadau 2003, a chyhoeddi Codau Ymarfer newydd sydd wedi eu cymeradwyo gan Ofcom. Adlewyrcha'r Codau newydd y trosglwyddo cyfrifoldebau o S4C i'r sector annibynnol a chefnogaeth barhaus S4C i alluogi'r sector gynhyrchu yn yr amgylchedd hawliau newydd.

Mae Partneriaeth Strategol S4C/BBC yn cryfhau'r ddarpariaeth yn yr iaith Gymraeg i S4C, ac am y tro cyntaf, fe fydd rhaglenni a gynhyrchir gan BBC Cymru ar gael ar wasanaethau band llydan ac ar-alw S4C.

3.4 Yn dilyn adolygiad o'r buddsoddiad mewn gwaith datblygu cynnwys, daethpwyd i'r casgliad bod nifer sylweddol o gytundebau â gwerth bychan iddynt yn cael eu dyfarnu i gwmnïau a fyddai'n wynebu anawsterau pan na fyddai'r syniadau yn cael eu comisiynu. Yn hytrach na chynnig cytundebau bach fesul tipyn, estynnwyd gwahoddiad i gwmnïau cynhyrchu, trwy gyfrwng proses dendro agored, i wneud cais am arian i gyfrannu at gost fframwaith datblygu.

---

[4] Ffynhonnell: BARB
[5] Ffynhonnell: Ofcom – Y Farchnad Gyfathrebu: Gwledydd a Rhanbarthau, Cymru, Mai 2008
[6] Gweler www.s4c.co.uk/production/downloads/guidelines/strat-rhag.pdf

3.5 Mae'r dull penodol yma o ddatblygu wedi arwain at ostyngiad dramatig o ran nifer a graddfa y prosiectau sydd yn cael eu dileu. Yn ogystal mae wedi darparu amgylchedd gynhyrchu sefydlog er mwyn datblygu talent, sgiliau a syniadau.

3.6 Yn gyson â Chynllun Corfforaethol 2007, mae S4C wedi cynnal adolygiad o'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cynnwys cynhyrchu gan ailedrych ar egwyddorion comisiynu a pherthynas busnes S4C â'r sector annibynnol, er mwyn sicrhau bod ei pholisïau yn berthnasol, er mwyn cwrdd â'r gofynion i wasanaethu S4C yn y dyfodol.

3.7 Mae'r adnodd cynhyrchu ar www.s4c.co.uk/cynhyrchu yn cynnig adnodd gwybodaeth cynhwysfawr i'r gymuned gynhyrchu gyfan. Trwy'r llwyfan hwn cynigir syniadau newydd, ac fe'i ddefnyddir er mwyn cyhoeddi pob gwahoddiad i dendro. Yn ogystal, mae'n sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau S4C, a'r telerau sydd yn sail i'r cynnwys a gomisiynir, ar gael i bawb.

3.8 Mae Ofcom yn nodi bod pobl yn gwerthfawrogi cyflenwad lluosol**,** yn enwedig o ran y ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes. Yn ei adolygiad, mae'n symud ymlaen i ddweud bod "...y mwyafrif yn ystyried bod lluosogrwydd yr un mor bwysig ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o raglenni."[7]

3.9 Mae gan luosogrwydd ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru nodweddion gwahanol ac ychwanegol. Mae S4C yn ymarferiad mewn lluosogrwydd gyda'r iaith yn cynnig ffordd o gadarnhau pwysigrwydd cynrychioli'r gymdeithas yr ydym yn byw ynddi. Yn ogystal, mae'n darparu lluosogrwydd ieithyddol ar draws yr holl genres rhaglenni, gyda'r rhaglenni hynny ar gael i siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn yr un modd trwy gyfrwng ein gwasanaethau is-deitlo a mynediad. Mae S4C yn cael ei rhaglenni materion cyfoes gan y BBC ac ITV Cymru a cheir cyflenwad lluosol yn y rhan fwyaf o genres rhaglenni ar S4C.

3.10 Er gwaethaf y ffaith bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus weithiau yn sicrhau mwy o gynnwys a gynhyrchwyd y tu allan i Lundain na'r hyn a bennwyd yn y cwotâu, mae Ofcom yn cydnabod nad ydynt "...wedi sicrhau lefelau sylweddol o waith cynhyrchu o'r tu allan i Loegr." [8] Er bod hyn yn wir yn y rhanbarthau yn Lloegr ac yn y cenhedloedd eraill, mae Cymru mewn sefyllfa fwy ffafriol na'r rhan fwyaf o ranbarthau i fanteisio ar farchnadoedd domestig yn y DU ac ar farchnadoedd rhyngwladol, o ganlyniad i fuddsoddiad uniongyrchol S4C yn y sector cynhyrchu annibynnol.

## 4. Meithrin Talent

4.1 Bydd cadw talent, a'i ddatblygu, yn allweddol i lwyddiant S4C wrth symud yn ei blaen, a bydd yn allweddol i ragolygon y diwydiannau creadigol ehangach yn y dyfodol. Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, mae S4C yn credu y dylem fod yn rhagweithiol yn y maes hwn.

4.2 Mae S4C yn gweithio gyda'r sector er mwyn hyrwyddo hyfforddiant a datblygu staff mewn cwmnïau cynhyrchu, gweithwyr llawrydd a newydd-ddyfodiaid. Mae S4C yn disgwyl i gwmnïau cynhyrchu gyflwyno cynllun hyfforddi ar gyfer pob comisiwn ac mae'n cynnig gwasanaeth i gydlynu'r cyfraniadau ariannol a wneir gan y sector at hyfforddiant. Mae S4C hefyd yn cynnig ysgoloriaethau ym meysydd chwaraeon, cerddoriaeth a newyddiaduraeth ac yn cefnogi mathau eraill o ddatblygu talent.

[7] Ofcom PSB2 t.34, par 3.38
[8] Ofcom PSB2 t.112, par 9.11

4.3 Mae S4C wedi cyflawni rôl allweddol wrth sefydlu Fframwaith Hyfforddi Skillset Cymru, a lansiwyd yn gynharach eleni. Mae hon yn bartneriaeth unigryw gyda Skillset Cymru a chyrff sectorol eraill, TAC, PACT a Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, sy'n cynnig dull gweithredu mwy strategol tuag at nodi anghenion hyfforddi, casglu data a gwybodaeth gan y sector am y tro cyntaf yng Nghymru, a'i ddefnyddio i ddylanwadu ar fuddsoddi yn y ddarpariaeth hyfforddi ac er mwyn meithrin sgiliau. Bydd buddsoddiad S4C yn talu ar ei ganfed, nid yn unig ynddo'i hun, ond fe ddylai hefyd olygu bod cwmnïau cynhyrchu yng Nghymru mewn sefyllfa gryfach i gystadlu mewn marchnadoedd eraill.

## 5. Effaith Economaidd S4C

5.1 Dangosodd adroddiad annibynnol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2007[9], bod S4C yn cyflogi 177 aelod o staff ond bod gweithgareddau S4C yn creu dros 2,250 o swyddi amser llawn yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn y sector cynhyrchu annibynnol, y mae angen sgiliau ar lefel uchel ar eu cyfer, ac mae hwn yn faes twf allweddol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

5.2 Mae'r adroddiad, a gynhaliwyd gan DTZ gyda chymorth Uned Ymchwil Economaidd Cymreig Prifysgol Caerdydd, yn disgrifio S4C fel "sefydliad hynod o ddarbodus" ac mae'n dangos sut y mae polisïau a phenderfyniadau prynu S4C yn effeithio ar y diwydiannau creadigol yng Nghymru, gan helpu i leihau'r bwlch rhwng perfformiad economi Cymru ac economi'r DU.

5.3 Ers cyhoeddi'r Adroddiad ynghylch yr Effaith Economaidd, gwelwyd gostyngiad pellach yn nifer y staff a gyflogir gan S4C. Mae rhaglen ddiwygio er 2006 wedi cynnwys cyflwyno strwythur mewnol newydd ac allanoli gweithgarwch cynhyrchu. Ar 1 Ionawr 2008, cyfanswm y staff (FTE) oedd 159.

## 6. Patrymau Gwylio a Defnyddio

6.1 Mae'r Strategaeth Rhagoriaeth Greadigol wedi gwella'r sefyllfa, ond er bod y darlun cyffredinol yn dangos cynnydd yn y defnydd a wneir o'n gwasanaethau, mae'r ddynameg ieithyddol yng Nghymru yn parhau i newid.

6.2 Mae S4C wedi llwyddo i newid gêr, gan adennill y gynulleidfa draddodiadol, ac rydym yn esblygu i sicrhau bod gwasanaethau yn ddeniadol ac yn berthnasol i rannau eraill o'r gynulleidfa. Teledu fydd prif gynhaliwr y cynnig am gryn amser ond mae'r strategaeth aml-blatfform, sy'n cynnwys ffrydio byw S4C a gwylio ar alw, (nodir y manylion isod, gweler adran 8), yn mynd yn fwyfwy poblogaidd.

6.3 Mae ymchwil tracio delwedd rheolaidd S4C yn dangos gwerthfawrogiad uchel o'r sianel ymhlith siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.

6.4 Fodd bynnag, wrth Newid i Ddigidol, ni fydd S4C yn ddiogel rhag yr un pwysau ag y bydd yn rhaid i bob DGC ei wynebu. Cyflwynwyd bolisïau megis ar gyfer aml-blatfform er mwyn lleddfu effeithiau'r newid, ond bydd yn rhaid bod yn realistig yn yr asesiad o'r hyn sy'n bosibl, gan addasu'r strategaeth a'r gweithgarwch buddsoddi o ganlyniad.

6.5 Mae sicrhau bod y gwasanaethau yn hygyrch i gymaint o bobl ag y bo modd, yn rhan ganolog o ddyletswydd gwasanaeth cyhoeddus S4C. Mae isdeitlau Saesneg yn cael ei darparu ar o leiaf 80% o'r holl oriau Cymraeg ar y gwasanaeth teledu analog. Mae is-deitlau Saesneg yn cael ei darparu ar dros 70% o'r gwasanaeth ar S4C digidol.

[9] Gellir gweld yr adroddiad llawn trwy droi at www.s4c.co.uk/abouts4c/corporate/e_econrep.shtml

6.6 Mae'r rhai sy'n dysgu Cymraeg yn rhan bwysig o'r gynulleidfa. Mae S4C wedi ymrwymo i helpu pobl i ddysgu Cymraeg a gwella'u Cymraeg. Mae'r wefan dysguars4c.co.uk yn cynnig gwybodaeth ychwanegol ac estynedig am nifer o raglenni'r Sianel ac mae'n darparu deunyddiau dysgu ieithyddol rhyngweithiol.

## 7. Gwasanaethau i Blant

7.1 Ers ei sefydlu, mae S4C wedi bod yn darparu rhaglenni i blant. Ym 1982, darlledwyd dwy awr a hanner yr wythnos. Ehangwyd y ddarpariaeth i gynnwys rhaglenni a ddarlledir amser cinio ac yn ystod y prynhawn. Yn 2005, aed ati i ddarparu rhaglenni ychwanegol yn ystod yr oriau brig. Yn ogystal, estynnwyd y ddarpariaeth bresennol yn ystod y gwyliau ysgol, gan gynnig oriau ychwanegol dros y Nadolig.

7.2 Daeth ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd gan Awdurdod S4C (Plant yn y dyfodol digidol)[10] i'r casgliad bod angen gwasanaethau Cymraeg pwrpasol ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd cam cyntaf y strategaeth newydd hon, ar gyfer plant oedran meithrin, yn dechrau darlledu ar 23 Mehefin. Darlledir rhaglenni bob dydd yn ystod yr wythnos rhwng 07:00 a 13:30 ar sianel ddigidol S4C, S4C digidol. Enw'r gwasanaeth newydd yw 'Cyw' a dyma gam cyntaf y strategaeth ar gyfer plant. Mae'r gwaith yn parhau i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y grwpiau oedran 7-11 a 12+.

7.3 Mae Ofcom wedi nodi bod, "...darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol traddodiadol yn wynebu pwysau sylweddol o ran eu gallu i ariannu rhaglenni gwreiddiol i blant."[11] Mae hefyd yn nodi "mae cyfle i S4C gyflawni rôl ehangach wrth helpu i hwyluso gweithgarwch i fanteisio ar gynnwys gwreiddiol yn y Gymraeg ar gyfer cynulleidfa mwy eang o blant Saesneg eu hiaith."[12]

7.4 Mae gan S4C a'i phartneriaid yn y sector annibynnol enw da rhyngwladol ym maes rhaglenni plant. Mae'r cyfleoedd a gyflwynir i S4C yn ymgynghoriad Ofcom yn deillio o ail-safleoli'r gwasanaethau a chydnabyddiaeth o brofiad y sector yn y maes hwn.

## 8. Strategaeth Ddarlledu a Dosbarthu

8.1 Mae Adolygiad Ofcom yn nodi bod defnyddwyr a dinasyddion yn troi at gyfryngau rhyngweithiol er mwyn bodloni'r anghenion a ddiwallwyd gan ddarlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn hanesyddol, gan ofyn, "Beth yw'r ffordd orau i'r cyfryngau rhyngweithiol wella gwerth allbwn presennol gwasanaeth cyhoeddus er mwyn gwella'r cyrhaeddiad a'r allbwn?"[13]

8.2 Mae Ofcom yn gofyn, "A oes modd gwella gwerth rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus a ddarlledir ar hyn o bryd trwy sicrhau bod cynnwys cyfredol ac archifol ar gael yn ôl y galw...?[14]

8.3 Mae S4C wedi cydnabod y newidiadau mewn patrymau defnyddio ac mae ganddi strategaeth aml-blatfform. Er mis Chwefror 2006, mae S4C wedi bod yn cynnig ffenestr wylio 35 diwrnod ar gyfer rhaglenni trwy gyfrwng band llydan. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol iawn gyda'r ddarpariaeth debyg a ddarparir gan ddarlledwyr eraill. Y llynedd, dechreuodd S4C ffrydio ei gwasanaeth digidol, S4C digidol, yn fyw trwy fand llydan. Mae'r gwefannau yn dod yn fwyfwy poblogaidd ac mae llyfrgell helaeth o raglenni a recordiwyd ar gael.[15] Yn ddibynnol ar hawliau mae S4C bellach ar gael ar draws y byd trwy gyfrwng y we.

---

[10] http://www.s4c.co.uk/plant/e_background.shtml
[11] Ofcom – The future of children's television programming. 3 Hydref 2007. (Papur trafod.)
[12] Ofcom PSB2 t 134, par 10.46
[13] Ofcom PSB2, Rhagair
[14] Ofcom PSB2 p. 7, par 1.23
[15] Gweler s4c.co.uk/watch

8.4 Mae gan S4C gytundeb gydag Inuk Networks, cyflenwr gwasanaethau chwarae-triphlyg i ddefnyddwyr, i gynnwys S4C digidol yn ei wasanaeth Protocol Teledu y Rhyngrwyd, Freewire TV.

8.5 Sut fydd modd i ni gydnabod llwyddiant mewn byd aml-lwyfan? Ar hyn o bryd, ni cheir un mesur safonol ar draws y diwydiant y gallwn ei ddefnyddio i fesur effaith a chyrhaeddiad ein gwasanaethau ar draws yr holl lwyfannau. Nid yw'r ffyrdd sefydledig o fesur maint cynulleidfaoedd gwylio teledu yn adlewyrchu'r cynnydd yn y defnydd a wneir o gynnwys Cymraeg yn yr amgylchedd ar-lein, a chyrhaeddiad cynnwys o'r fath.

8.6 Mae egwyddorion deuol amlygrwydd priodol a'r gallu i ddarganfod ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn ddiymwad. Hyd yn hyn, mae S4C digidol wedi derbyn amlygrwydd priodol mewn rhestrau rhaglenni electronig (EPG). Ond yn yr oes ddigidol, bydd angen pennu ffyrdd newydd o sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â gwahanol fathau o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus, yn hygyrch.

8.7 Teledu Daearol Digidol (TDD) yw conglfaen strategaeth aml-blatfform S4C. Mae'r Sianel yn falch o'r ffaith bod Ofcom wedi ailddatgan ei nod yn ddiweddar y dylai pob sianel DGC gyfredol, gan gynnwys S4C, gael ei chynnwys ar blethiadau darlledu ar gael i bawb.[16] Fodd bynnag, mae'n hollbwysig bod S4C digidol ar gael i bawb pan fydd proses y Newid i Ddigidol yn cychwyn yng Nghymru. Heb sicrwydd o'r fath, ceir perygl y bydd ardaloedd penodol y byddant wedi newid i wasanaeth TDD, yn colli gwasanaeth S4C am gyfnod amhenodol.

8.8 Mae S4C wedi ymateb i ymgynghoriad Ofcom ynghylch HD/Dyfodol Teledu Daearol Digidol.

## 9. Ariannu

9.1 Mae arian S4C yn deillio o sawl ffynhonnell:

- Fformwla ariannu statudol. Mae hyn yn lleihau unrhyw effeithiau amrywiad yn y farchnad, gan alluogi'r sianel i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Yn ei dro, mae hyn yn cynnig sefydlogrwydd i gyflenwyr wrth ddyfarnu cytundebau am gyfnod hwy, sy'n caniatáu i greadigrwydd a dyfeisgarwch ffynnu.
- Cyfraniad o ffi'r drwydded y BBC. Mae hwn ar ffurf rhaglenni a gwasanaethau ac mae'n cael ei ariannu fel un o gynhyrchion ffi'r drwydded. Cynhwyswyd y trefniant hwn yn y Bartneriaeth Strategol y cytunwyd arni fel rhan o'r broses o Adnewyddu'r Siarter. Mae'n werth cofio yr arferai'r BBC ddarlledu rhaglenni Cymraeg gan ddefnyddio arian o ffi'r drwydded cyn y sefydlwyd S4C.
- Incwm masnachol o refeniw hysbysebu, gwerthu rhaglenni a mentrau masnachol eraill. Mae S4C wedi rheoli'r dirywiad mewn rhai agweddau ar y ffrwd incwm hwn.

9.2 Mae'r cyfuniad hwn o drefniadau ariannu yn gweithio, yn hawdd i'w deall ac yn cyd-fynd â phedwar model cyffredinol Ofcom wrth ystyried dyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.

[16] Ofcom: Digital Television: Enabling New Services. Facilitating efficiency on DTT, Ebrill 2008. http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/dttfuture/statement/statement.pdf